CYPE(5)-24-17 - Papur 7 - i'w nodi

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne

**Senedd Ieuenctid**

Roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y prosiect Senedd Ieuenctid gan i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben yn ddiweddar ar 28 Mehefin.

Cymerodd dros 5,000 o bobl ifanc ran yn yr ymgynghoriad, gyda thîm Addysg ac Allgymorth y Cynulliad yn darparu dros 150 o weithdai a digwyddiadau ymgynghori gydag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Cymru.  Mae hwn yn ymateb aruthrol ac ymgysylltodd pobl ifanc o bob awdurdod lleol ac o nifer o grwpiau anodd eu cyrraedd â ni, a llawer ohonynt yn gwneud hynny am y tro cyntaf.

Cynhaliodd llawer o sefydliadau ac ysgolion eraill weithdai ymgynghori o fewn eu rhwydweithiau eu hunain, gan gynnwys rhai o'r sefydliadau hynny sydd ar ein grŵp llywio senedd ieuenctid.

Mae'r data a gafwyd o'r ymatebion ymgynghori hyn bellach yn cael eu dadansoddi gan gwmni ymchwil annibynnol, allanol – Beaufort Research - a disgwyliwn gael rhai canfyddiadau cychwynnol ym mis Awst.  Wedi hynny, bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn ar ddiwedd mis Medi pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sut i fwrw ymlaen â'r prosiect yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i'r prosiect ddatblygu wrth gwrs.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403